YMGYRCH HANES CYMRU

Tan-y-dderwen, Penmachno, Betws-y-coed LL24 0PS
owaintan@hotmail.com 01690 760335

Lynne Neagle AC
Cadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

29 Hydref 2018

Annwyl Lynne Neagle

Ysgrifennaf ymhellach i dderbyn eich llythyrau dyddiedig 10 Ionawr a 12 Ionawr eleni, mewn ymateb i gais gan Ymgyrch Hanes Cymru ar i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg graffu'n ofalus ar ddatblygiad y cwricwlwm newydd ac yn arbennig ar le hanes Cymru oddi mewn Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

Gwyddoch fod Ymgyrch Hanes Cymru, ynghyd â llawer iawn o bobl eraill, yn anfodlon efo'r diffyg statws a sylw i roddir i hanes Cymru mewn llawer o ysgolion. Rydym hefyd yn bryderus nad oes digon o arweiniad wedi ei roi i'r Ysgolion Arloesi a'r partneriaid eraill sy'n gweithio ar y cwricwlwm bod angen i hanes Cymru gael lle canolog.

Yn eich ymateb blaenorol, rydych wedi ymrwymo i barhau i fonitro'r broses ac y byddwch yn ystyried cynnwys y cwricwlwm pan yn briodol gwneud hynny. Ni welaf, o ddarllen trawsysgrifiadau'r Pwyllgor P, Pl ac A fod hyn wedi digwydd hyd yma.

Gan fod yr Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg wedi datgan y bydd y cwricwlwm newydd ar gael erbyn y Pasg 2019, mae'n amlwg bod (neu y bydd yn fuan) cynnwys y gwahanol Feysydd yn cael ei ystyried erbyn hyn.

Galwn eto ar y Pwyllgor P, Pl ac A i drafod y materion hyn fel mater o frys ac i holi'r Ysgrifennydd Cabinet yn drylwyr ar sut y bydd hanesCymru'nr han o'r cwricwlwm.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb.

Yn gywir

Eryl Owain
Cydlynydd Ymgyrch Hanes Cymru